

Porthaethwy
Ynys Môn
LL59 5SS
Ffôn: (01248) 712287
e-bost: ydhpem@ynysmon.gov.uk



Menai Bridge
Isle of Anglesey
LL59 5SS
Tel: (01248) 712287
e-mail: ydhpem@anglesey.gov.uk

Pennaeth / Headteacher
H.Emyr Williams BSc, MEd

03.07.2020

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Rydym yn gobeithio eich bod yn parhau i gadw'n saff ac yn iach.

Yn arferol, erbyn hyn, fe fyddai dysgwyr blwyddyn 6 wedi mwynhau tridiau o anwytho yn Ysgol David Hughes ac fe fyddem wedi cynnal cyfarfod i rannu gwybodaeth gyda chi'r rhieni. Rydym yn hynod o siomedig nad oedd hyn yn bosib eleni. Rydym yn llawn sylweddoli fod trosglwyddo o ysgol i ysgol dan yr amodau hyn yn llawer mwy heriol na'r arfer ond fe wnawn bob dim posibil i leddfu pryderon eich plant a chithau.

Gallwn gadarnhau erbyn hyn mai yn gynnar ym Mis Medi y byddwn yn cynnig sesiynau anwytho i'ch plentyn yn yr ysgol. Yn anffodus, nid yw'n ymarferol bosib cyn hynny. Byddwn yn cysylltu gyda chi yn ail hanner mis Awst i gadarnhau'r trefniadau a rhannu'r union fanylion gyda chi.

Yn y cyfamser, hoffem eich atgoffa fod angen cwblhau'r ffurflen gofrestru os nad ydych eisoes wedi gwneud <https://forms.gle/gqcc2Z7orV1kebWA6> ac i gael golwg ar ein gwefan www.ysgoldavidhughes.org. Yno, dan y tab 'rhieni' fe welwch wybodaeth a fydd o fudd i chi, gan gynnwys ein llyfryn gwybodaeth i rieni a dysgwyr bl.6; ein cylchgrawn pontio blynyddol, wedi ei baratoi gan ddysgwyr blwyddyn 6 a 7 yn gynharach eleni; tasg y byddem yn falch petai bob plentyn yn ei gwblhau dros yr wythnosau nesaf a llyfryn pontio i ddysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol fydd yn help i rai teuluoedd o bosib. Yn ychwanegol ar y wefan fe welwch daith rithiol o amgylch yn ysgol, gwybodaeth am y wisg ysgol a gwybodaeth am drafnidiaeth i'r ysgol. Fe welwch hefyd ymgais i ymateb i rai o gwestiynau pennaf ein rhieni (FAQ) a bydd linc i fideo ar gyfer dysgwyr blwyddyn 6.

Fe wnawn ein gorau i gadw mewn cysylltiad â chi dros yr wythnosau nesaf. Gallwch ddilyn digwyddiadau yn yr ysgol ar ein cyfrif Twitter [@DavidHughesYDH](https://twitter.com/DavidHughesYDH).

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at eich cyfarfod chi a'ch plentyn yn ystod yr wythnosau nesaf. Os oes unrhyw gwestiynau pellach ganddo' chi, mae croeso i chi gysylltu gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod, byddem yn falch o geisio ateb unrhyw gwestiwn sydd gennych.

Yr eiddoch yn gywir,

O. Ellis Hughes
(Pennaeth Blwyddyn 7)

H. Emyr Williams
(Pennaeth)